**Enw'r Ysgol:** **Ysgol O.M.Edwards. Rhif 2199**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin a'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Cristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Cant eu cyflwyno drwy'r tri sgil craidd y pwnc.
**Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol –** cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudiaeth mewn addysg grefyddol.
**Archwilio credoau,** dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol – mae hyn yn cynnwys archwilio storïau crefyddol, testunau cysegredig, ffordd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
**Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau â phrofiadau'r disgyblion eu hunain a chaniatáu datblygu ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol, a'u gwerthuso.
Ceir tystiolaeth o fewn llyfrau Thema'r plant a gwaith o fewn y 6 Maes Dysgu.
***Wrth arfarnu'r pwnc gwelwyd fod;***
Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Mae'r addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio ar elfennau ysbrydol a moesol, gwelwyd yma fod y gwaith sydd yn digwydd gyda'r Gweinidog Carwyn Siddall a Dr Owain o Goleg y Bala yn ennyn chwilfrydedd a trafodaeth iach iawn yn y pwnc. Mae'r ysgol yn ffodus iawn o gyfraniad rheolaidd arweinwyr crefyddol lleol i sesiynau addoli ar y cyd. Gwna'r rhain gyfraniad da i ddatblygiad ysbrydol disgyblion. Ar achlysuron arbennig daw'r Llywodraethwyr i gymryd rhan yn y Gwasanaeth boreol.
Mae defnydd o adnoddau da sydd gan yr ysgol yn gymorth mawr iddynt ddeall credoau eraill megis Hindŵaidd – ceir bwrdd mawr o offer ac arteffactau i'r disgyblion gael gweld a theimlo. Cafwyd arddangosfa yn y dosbarth hynaf ar y crefydd Iddewiaeth hefyd gyda offer priodol i'w rannu a trafod gyda'r disgyblion.
Ceir cyfle i'r disgyblion gyflwyno Gwasanaeth arbennig eu hunain – am bynciau megis bwlio, ffrindiau Ffeind, actio rhan o ddrama, cyflwyno barddoniaeth, darllen darnau i ysbrydoli neu adnodau, cerddi a gwaith y thema.
Mae'r holl ddisgyblion yn parchu naws y sesiynau addoli ar y cyd. Ceir rhaglenni Addysg Bersonol a Chymdeithasol wedi cynllunio'n ofalus ar draws pob agwedd o waith yr ysgol sydd yn sicrhau fod datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn seiliedig ar egwyddorion a gwerthoedd clir
Ceir cyfleoedd helaeth sydd yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol y disgyblion, gan greu ynddynt ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb at yr ysgol, eu hamgylchfyd a'r gymuned drwy ymweld yn rheolaidd a mannau addoli yn y Gymuned megis yr Ysgoldy a'r Hen Gapel.
Bu i'r Disgyblion hynaf greu ffilm yn yr Hen Gapel am hanes a bywyd Michael D Jones a'r bobl aeth i'r Wladfa. Bu athrawes o'r Wladfa yma yn trafod ei hanes gyda'r disgyblion ac yn adrodd hanes Michael D Jones. Roedd hyn yn dod a'r hanes ar stori yn fyw iddynt.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn:** **BARN Rhagorol.**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

Mae'r disgyblion yn cael cyfle i werthfawrogi a chyfrannu at eu lles eu hunain a lles eraill. Cant y cyfle i fod yn ymwybodol o'u teimladau a'u safbwyntiau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd gytbwys a phriodol. Mae'n bwysig eu bod yn deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd.
Cant gyfle i ddeall bod gan bobl eraill deimladau a chredoau sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn meddwl ac yn ymddwyn. Maent yn dangos gofal, parch a hoffter tuag at blant eraill, oedolion a phethau byw eraill a'u hamgylchedd ac yn datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u hamgylch a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb am bethau byw a'u hamgylchedd. Mae Gwobr Blatinwm y Cyngor Eco, sydd gan yr ysgol, yn dystiolaeth o sut maent yn gwarchod eu Byd, ac yn adnabod y pwysigrwydd o warchod yr amgylchedd leol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos diddordeb naturiol a chwilfrydedd amlwg yn y pwnc.
Maent yn fodlon iawn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymunedol megis Gwasanaeth Diolchgarwch a Gwasanaeth Nadolig o fewn y pentref ac wrth eu bodd yn rhannu eu gwaith gyda'r Gymuned i safon uchel. Yn y Gwasanaethau yma – mae amrywiaeth dda o gysyniadau crefyddol yn cael eu rhannu. Eisoes rydym wedi cynnal Gwasanaethau ar Storiâu'r Iesu megis drwyr thema Dŵr – Iesu ar disgyblion ar y môr, hanes y disgyblion, gwyrthiau'r Iesu, a trafod problemau ar draws y Byd, mewn gwledydd sydd a diffyg dwr glan neu mewn achosion mawr o lifogydd a daeargryn. Os fydd unrhyw ddigwyddiad trychinebus yn digwydd mae'r disgyblion yn barod iawn i rannu a holi ac i wneud gwaith tuag at codi arian at achosion da megis Daeargryn yn Nepal, Tsunami, neu drychineb gyffelyb.
Drwy wasanaethau ac ymchwil am wledydd ar draws y Byd, maent yn datblygu ymdeimlad o helpu eraill, o fyd sydd yn wahanol iawn ac o ddangos empathi tuag at bobl llai ffodus na nhw eu hunain.
Mae' llawer o'r disgyblion yn mynychu Ysgolion Sul yn y Gymuned, a daw y Parch Carwyn Siddall a Dr Owain yma yn dymhorol i drafod testunau crefyddol gyda'r ysgol gyfan.
Mae gan yr ysgol Gyngor Ysgol ac Eco aeddfed iawn sydd yn fodlon trefnu gweithgareddau eu hunain megis at fore coffi McMillan yn flynyddol, ynghyd a helpu drwy elusennau plant, Diwrnod Trwyn Coch, Diwrnod Codi 'Den', NSPCC, *Bocsus Operation Christmas Child*, Water Aid, Ambiwlans Awyr, Plant Mewn Angen, Wythnos Masnach Deg, Pabi Coch, neu unrhyw achos arall.
Cafwyd ymwelwyr yma oedd yn cerdded o Bethlehem i Nasareth yn codi ymwybyddiaeth am y daith, a daeth Llinos Roberts Cymorth Cristnogol, yma i gasglu caridau gan y disgyblion i fynd i aelodau yn San Steffan.
Gweler tystiolaeth ar wefan yr ysgol, cyfrif Twitter neu grŵp Cyfeillion Ysgol O.M.Edwards ar facebook.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN Rhagorol.**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

*O fewn y Cyfnod Sylfaen mae'r plant yn chwilfrydig ac yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas. Mae'r plant yn ymddiddori yn eu hunain, eu teuluoedd, pobl eraill a rhyfeddodau'r byd. Mae'r diddordeb a'r brwdfrydedd naturiol hwn yn golygu fod y plant yn cael y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth priodol sy'n darparu'r sail hanfodol ar gyfer addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2. Trwy weithgareddau ac ymweliadau ymarferol, gallent ddysgu mwy am eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u hamgylch a datblygu dealltwriaeth o'u treftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol gyfoethog yng Nghymru. Trwy chwarae bydd plant yn datblygu eu syniadau, barnau a theimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd a all helpu lliwio eu barn o'r byd, eu gobeithion a'u breuddwydion. Wrth fynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain gallent adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwynt nhw a myfyrio ar eu persbectifau eu hunain ar fywyd, a'u haddasu fel y bo'n briodol.*
**Profiadau'r Cyfnod Sylfaen yn Ysgol, O.M.Edwards**
Mae'r ysgol yn chwilio a paratoi teithiau yn aml iawn i ysbrydoli gwaith a phrofiadau'r disgyblion yn y maes yma.
Taith i Fyd Mari Jones, Llanycil a chael sgwrs gyda'r Gweinidog yno am hanes Mari Jones.
Ymweld a Ty Mawr Wybrnant – i glywed hanes am fywyd William Morgan
Dathlu Diwali yn yr ysgol drwy ddysgu ac actio stori Rama a Sita a dilyn ein ffrindiau yn Nepal gan ddysgu sut maent yn dathlu a dilyn y crefydd Hindŵ yno. Mae'r disgyblion o CS wedi bod yn creu ac anfon cardiau Diwali i Nepal i Ysgol Jaleshwary. Buom hefyd yn edrych ar demlau a Mandir yn Nepal drwy waith daearyddiaeth i weld ble a sut maent yn addoli yno.
Cynnal priodas fach yn ysgoldy gyda plant y CS i ddysgu am y drefn ar ddefosiwn. Bedyddio un o'r doliau yn yr ysgoldy gyda'r gweinidog yn esbonio beth sy'n digwydd ar symbolaeth o ddŵr o fewn y Gwasanaeth yma.
Disgyblion blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn casglu gwahanol Feiblau – newydd a hen a cymharu drwy wneud thema ar Lyfrau. Daeth Carwyn Siddall, y Gweinidog a'i hoff lyfr yma sef y Beibl a trafod gyda'r disgyblion amdan y llyfr mwyaf adnabyddus a pwysig yn y Byd.
Disgyblion y CS yn dewis hoff stori o'r Beibl ac yn rhannu gydag eraill. dewis storiâu sydd yn cyd – fynd orau a'r Thema yn ystod y tymor.
Disgyblion yn rhannu a darllen Beibl Bach y Plant yn y dosbarth yn rheolaidd ac yn mwynhau gwrando a rhannu storiâu.

Yn ystod y Nadolig bu'r disgyblion iau yn canu carolau o amgylch y pentref i'r henoed ac yn mynd i'w cyfarch yng ngwesty'r Eryrod yn ystod eu cinio Nadolig i ganu rhai o'r caneuon.

**Profiadau Cyfnod Allweddol 2.**

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae addysg grefyddol yn meithrin diddordeb a rhyfeddod dysgwyr o'r byd a'r profiad dynol. Mae hyn yn eu hysgogi i ofyn ac ymchwilio cwestiynau dwfn sy'n ymwneud â'u profiadau personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol, gan felly adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Trwy weithgareddau ysgogol ymarferol ac archwilio crefydd yn eu cymdogaeth yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y byd ehangach, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau ac yn casglu gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i feddwl yn greadigol am gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol a rhannu syniadau trwy drafod. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) a chydnabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl yn helpu datblygu goddefgarwch a pharch, a dylai helpu meithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang. Trwy gyfranogi'n weithredol bydd y dysgwyr yn archwilio dimensiynau ysbrydol a moesol i'w cynorthwyo wrth iddynt chwilio am ystyr a phwrpas. Bydd y dysgwyr yn mynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain, adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwynt nhw a myfyrio ar eu persbectif eu hunain am fywyd a gallu addasu fel bo'r angen.

**Profiadau Disgyblion CA2 Ysgol O.M.Edwards**

Cynnal a chreu Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Hen Gapel yn flynyddol i'r Gymuned lawn.
Sioe bypedau – cynnal a gwahodd sioe bypedau yma i'r ysgol.
Ymweliadau cyson a mannau crefyddol Ysgoldy, Hen Gapel, Eglwys y Bala – Sur yr Urdd, Byd Mari Jones,
Bydd y disgyblion yn ymweld a Choleg y Bala i gael gwersi am y Pasg yn flynyddol.
Ymweliadau a mannau arbennig yn yr ardal a thu hwnt.
Dysgu am grefydd a gwlad Nepal yn flynyddol.
Ceir blwch teimladau yn y cyntedd i'r disgyblion rannu pryder neu rannu neges neis am blant sydd yn ffrind da ac i rannu arferion da y disgyblion.
Mae'r disgyblion wedi cyfrannu ar y polisi bwlio sydd yn yr ysgol a rhannu a gweddill y disgyblion mewn gwasanaeth arbennig.

Nodiadau:

Maent hefyd wedi bod yn rhannu a dysgu am grefyddau a chredoau eraill ar draws y Byd megis Diwali ac Moslemiaeth drwy gyfrannu at rannu gwybodaeth am y broses o ddefnyddio Dwr mewn credoau ar draws y Byd. Mae'r disgyblion wedi bod yn actio storiâu Rama a Sita yn y Gymuned wrth sôn sut rydym yn dysgu am y grefydd Hindŵ a Diwali yn enwedig. Mae'r plant wedi bod yn creu a gyrru cardiau Diwali i Nepal. Gyda'r cyswllt agos yma maent wedi cael dillad ac arteffactau o Nepal i'w gwisgo yn yr ysgol.
Drwy gyswllt agos gyda Nepal mae bron pob un disgybl wedi dysgu am wlad sydd yn datblygu, wedi dysgu am rai o draddodiadau'r wlad wedi dysgu am grefydd arall megis Hindŵ, ac wedi datblygu i gael empathi tuag at wlad sydd yn dlotach a llai ffortunus a ni. Maer rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o dlodi yn y wlad ar amser caled a gafod trigolion y wlad yn dilyn y daeargryn yn 2013.
Bu i'r **Cyngor Ysgol** benderfynu codi arian i helpu'r wlad a drwy wneud gwahanol weithgareddau wedi cael eu noddi llwyddwyd i gasglu dros £4,000 tuag at helpu yn y wlad. Cafodd y disgyblion weld yn union ble roedd yr arian yma yn mynd – drwy i ni dderbyn lluniau gan Nepal am brynu reis, dillad bagiau ayyb i blant Ysgol Jaeshwary. Mae gan yr ysgol gyswllt agos a cartref plant Sonrisa yn Nepal hefyd a byddwn yn danfon cardiau a llythyrau yn achlysurol.
Mae'r disgyblion wedi cael profiad o;

- Astuduio Hindŵ – Diwali a storiau Rama a Sita
- Astudio defodau addoli drwy ddefnyddio Dŵr ar draws y Byd.
- Y Crefydd Iddewiaeth – gwneud uned o waith ar Jerwsalem a crefydd yr Iddewon
- Crefydd Moslemaidd.

**Gweithgareddau a profiadau mewn Addysg Grefyddol, Iechyd a Lles gan y disgyblion a'r staff.**

Cwrs Amser cylch a iechyd a lles disgyblion gan Jenny Mosley (Gwanwyn 2018)
Cwrs Arweinyddiaeth Ganol, Llythrennedd corfforol (5 diwrnod i gyd) Elliw Jones yn mynychu cwrs Arweinyddiaeth ganol.
Holl staff yr ysgol wedi bod ar gwrs HMS yn cyflwyno gwaith Meddylfryd Twf gan Shirley Clark (Medi 2016)
PC John yr ysgol wedi trefnu 2 noson diogelwch y wê ar gyfer rhieni – noson i bawb ddod draw i drafod neu fynegi eu pryderon.
Dosbarthiadau yn cael ymweliadau cyson gan PC John sydd yn cyflwyno gwahanol themâu Iechyd Diogelwch a Lles

Chwaraeon yr Urdd –pob math o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan - rygbi, criced, pêl rwyd, pêl droed, athletau, nofio – gwneud yn siŵr fod yr ysgol yn cymryd rhan ym mhob cystadleuaeth chwaraeon;
Cystadlaethau Sportshall, Cystadleuaeth chwaraeon Cymru, Cystadlaethau chwaraeon dalgylchol
Traws gwlad – Coed y Brenin.
Beicio i'r ysgol a tystysgrif beicio diogel Haf 2017 blwyddyn 6, lefel 1 a 2.
Y Cyfnod Sylfaen yn mynd ar daith gerdded o amgylch y pentref yn gyson – adnabod ble mae'r Hen Gapel, Ysgoldy a pobl sy'n ein helpu.
Ymweliad gan y parafeddyg (disgyblion blwyddyn Derbyn) sut i ofalu am ein hunain.
Yr ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn flynyddol yn edrych ar Nepal – casglu arian, llythyrau i Ysgol Jaleshwary, dysgu am y wlad, diwylliant a thraddodiadau.

- Ymweliad Anti Emma i ddosbarth Meithrin a Derbyn – babi newydd – sut mae gofalu am faban
- Sach Dyma fi – (Derbyn) cyfle i siarad am eu hunain a dod a gwrthrychau i'r ysgol. Dod i adnabod eu gilydd.
- Dangos a dweud (blwyddyn 1 a 2) cyflwyno un peth o ddiddordeb iddynt o flaen y dosbarth
- Diwrnod Diogelwch y wê
- Cystadleuaeth CogUrdd – disgyblion yn cymryd rhan yn hyn yn flynyddol, gyda 13 yn cystadlu flwyddyn diwethaf.
- Ymweliad Rhian – NSPCC
- Cyngor Eco yn mynychu cynadleddau Eco-Ysgolion yn flynyddol – y disgyblion yn cyflwyno ac yn adrodd yn ô li weddill yr ysgol mewn gwasanaeth am edrych ar ôl ein moroedd – lleihau plastig.

Paratoi cystadleuaeth drwy'r ysgol addurn Nadolig wedi wneud gyda plastig sy'n cael ei ail gylchu, gwobrau o lyfrau i'r enillwyr. Nadolig 2017.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN Rhagorol**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**

***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- 

Nodiadau:
Ceir cofnodion manwl yn y Bocs Coch yr ysgol o unrhyw achosion o fwlio neu achosion Amddiffyn Plant.
Mae cymorth da iawn i'w gael gan y Sir yn y maes yma. Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi creu polisi Gwrth fwlio newydd ar gyfer 2018 ac wedi rhannu hwn gyda'r ysgol gyfan.
Ceir grwpiau 'Ffrindiau Ffeind' o fewn yr ysgol.
Datblygiad ysbrydol
Mae trefniadau'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda iawn.
Byddwn yn ymestyn gwahoddiad yn aml i'r aelodau o'r gymuned i annerch y plant. Mae naws ysbrydol arbennig i'n gwasanaethau ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw a thrwy rannu teimladau ar y pryd. Daw Dr Owain Hughes, Coleg y Bala, Carwyn Sidall- gweinidog i'n gwasanaethau yn rheolaidd i annerch y plant a cheisir datblygu synnwyr o chwilfrydedd, drwy fyfyrio ar eu bywydau a'u credoau eu hunain.
Daw ymwelwyr o Nepal i drafod y grefydd Hindŵ gyda'r disgyblion yn flynyddol.
Maent yn cymryd rhan flaenllaw i drefnu Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Hen Gapel yn flynyddol, cynnal bore coffi, codi arian at achosion da – e.e. Nepal, Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru, 'Operation Christmas Child'. Cymryd rhan yn y Sioe amaethyddol leol.
(Gweler hefyd y gwaith sydd yn digwydd o fewn yr adrannau uchod.)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | √ | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN Da.**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**

| ***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol. |
| Nodiadau:<br>Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol<br>'Plentyn yn Gyntaf.'<br>Gweledigaeth yr ysgol - Un cyfle sydd gennym yn yr ysgol i roi'r addysg a'r profiadau gorau posib i bob un disgybl, mewn awyrgylch ddiogel a hapus. Datblygu'r plentyn cyflawn a gwneud gwahaniaeth i'w fywyd o fewn ei gymdeithas a gydol oes.<br>Difyrru'r amser yw gweithredu heb weledigaeth - ond gyda gweledigaeth a gweithredu fe allwch newid y byd<br>Adolygir gweledigaeth ac amcanion yr ysgol yn rheolaidd er mwyn arwain gwaith yr ysgol yn effeithiol. Ers 2016 a dyfodiad Dyfodol Llwyddiannus a Cwricwlwm i Gymru, mae'r ysgol yn gweithredu o dan y 4 Nod Donaldson;<br>Mae'r Llywodraethwyr ar staff yn rhannu'r un weledigaeth sydd yn rhoi pwyslais ar safonau a chyrhaeddiad uchel.<br>Rhenni'r blaenoriaethau'r Ysgol gyda'r holl ran ddeiliaid.<br>Mae ein blaenoriaethau gwelliant yn rhoi ffocws i gyfeiriad strategol yr ysgol gyda golwg ar wella safonau cyrhaeddiad a chyflawniad y disgyblion.<br>Mae pob aelod o staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas ar nodau yn y CDY ai cyfrifoldebau strategol i weithredu'r Blaenoriaethau ac yn enwedig gwaith Addysg Grefyddol. Ceir adroddiad monitro Addysg Grefyddol o fewn y CDY a'r gwaith sydd yn digwydd. Mae gwaith Iechyd a Lles yr ysgol wedi cael Rhagoriaeth o fewn arolwg Estyn yn 2018, yr holl gyfle mae'r disgyblion yn gael i addoli, myfyrio a gwaith Meddylfryd Twf yr ysgol.<br>Mae'r hunan arfarnu yn digwydd yn rheolaidd gyda'r staff ac amserlen briodol a theg i bawb gymryd eu cyfrifoldeb yn y pwnc o ddifri.<br>Bydd yr arfarniadau a'r trafodaethau staff yn bwydo CDY. Mae'r staff ar Lywodraethwyr yn cyfrannu at lunio'r CDY.<br>Mae'r Pennaeth ar staff dysgu yn monitro safonau'r disgyblion yn rheolaidd, a rhoddir adborth yn wythnosol yn y cyfarfodydd staff am ble yr ydym wedi cyrraedd.<br>Mae'r staff ym ymrwymedig i weithio fel tîm ac yn rhannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu allan. Mae hyn yn digwydd gydag ysgolion eraill y Dalgylch. Maent yn derbyn cyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill o fewn y dalgylch a thu allan i Gonsortia eraill.<br>Mae'r staff yn rhan o'r broses hunan arfarnu yr ysgol ac yn glir ynghylch cyfeiriad strategol yr ysgol.<br>Mae perthynas weithredol dda gyda'r Ysgol Uwchradd – Ysgol y Berwyn, ysgolion o fewn ein cymuned dysgu proffesiynol a gydag asiantaethau eraill.<br>Mae'r Ysgol wedi derbyn myfyrwyr o Goleg Prifysgol Bangor yn rheolaidd ac wedi elwa o gael cydweithio gyda staff y Coleg i arfarnu ac asesu darpar athrawon.<br>Mae'r corff Llywodraethol yn cyflawni holl ofynion deddfwriaethol i'r eithaf er lles pob unigolyn o fewn yr Ysgol.<br>Mae gan y Llywodraethwyr wybodaeth dda iawn am berfformiad yr ysgol a hefyd perfformiad yr ysgol o fewn ei chymuned boed yn wasanaethau neu gyngherddau.<br>Mae gan y corff llywodraethol eu cyfrifoldebau ac maent yn hollol wybodus beth ydynt, mae un aelod yng ngofal Addysg Grefyddol o fewn y Corff. Byddant yn ymdrin a'u dyletswyddau yn broffesiynol iawn, a cheir trafodaethau wythnosol gyda'r Cadeirydd er mwyn trafod unrhyw faterion o bwys.<br>Mae aelodau o'r Corff wedi ymweld ar ysgol ar sawl achlysur i wrando ar wasanaeth, diwrnod Gwyl Dewi ac Eisteddfod yr ysgol. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn:** **BARN Da** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd | |

| | | yn glir i staff a llywodraethwyr | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae cysylltiadau clos rhwng gweithgareddau'r ysgol a'i chymuned sydd yn hyrwyddo gwaith Addysg Grefyddol yn rhagorol. Ceir cyswllt agos iawn a'r Gweinidog lleol a Gweinidog Coleg Y Bala.
Bydd yr ysgol yn mynd allan at y gymuned yn gyson drwy weithgareddau fel Gwasanaeth Diolchgarwch yn flynyddol sydd hefyd yn dangos dawn y disgyblion i'r Gymuned. Pob un o'r disgyblion hyn yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn clybiau amrywiol sydd yn hybu Iechyd a Lles y disgyblion i gyd. Mae'r Cyngor Ysgol ar Cyngor Eco yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion wneud penderfyniadau pwysig a rhoi cyfrifoldeb iddynt ac yn eu gwneud iddynt deimlo ei bod yn cael eu gwerthfawrogi. Drwy weithio yn agos iawn â gwlad Nepal, mae gan y disgyblion agwedd gadarnhaol ac iach iawn tuag at bobl o gefndiroedd, diwylliannau a chredoau gwahanol. Bydd pob gwasanaeth Diolchgarwch yn codi arian at achosion da - Ambiwlans Awyr Cymru, Nyrsys McMillan, Plant Mewn Angen, Haiti, Sefydliad Clefyd y Galon, Y Deillion, Oxfam a Water Aid. Y disgyblion sydd yn cymryd rhan flaenllaw yn y penderfyniad o ble mae'r arian yn mynd a pwy fydd yn derbyn cyfraniad.

| | |
|---|---|
| **Enw'r pennaeth** | **Dilys Ellis Jones** |
| **Llofnod y pennaeth** | *Dilys Ellis-Jones* |
| **Dyddiad:** | 30.4.18 |